# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DACHWEDD 4ydd, 2024

## Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd ) Cyng. Emyr Jones
Cyng. Sharon Thomas Cyng. Ceri Jones
Cyng. Maldwyn Lewis Cyng. Mark Davies
Cyng. Teifi Evans Cyng. Carol Davies
Cyng. Osian Davies

**Clerc** Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng Llŷr Evans a'r Cyng Rob Jones

.

**2. Datgan Diddordeb –** Y Cyng.Sharon Thomas – Y Coed Nadolig

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

**3.1 –** Derbyniodd pawb gopi o gofnodion mis Hydref a cytunodd y Cyng. Mark Davies eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan y Cyng.Sharon Thomas.

.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1** - Mae'r Cyng.Sharon Thomas yn dal i ddisgwyl clywed am y De-fib yng Nghroeslan.

**4.2** – Mae'r Cyng Ceri Jones wedi cysylltu gyda Jill Lowry am y llwybrau cerdded. Maent yn cael eu tacluso dair gwaith y flwyddyn a tybed a fyddem ni yn gallu cyfrannu trwy helpu talu pobl i dorri'r gwrychoedd. Byddai modd gosod arwyddion ar y llwybrau cyhoeddus - - ond mae rhai gan Jill eisioes. Mae angen 'shale' i lwybr Rhydlewis,a soniwyd am agor llwybrau sydd wedi cau – ar bwyd Clos Glas yn Coedybryn.

**4.3** – Rydym yn dal i gael ymateb wrth Boomerang am arwydd T Llew Jones.

**4.4** – Tachwedd 20fed – Cyfarfod Cymdeithas Clercod Cymru, ond mae ar ddydd gwaith ac ni all y Clerc fynychu.

**5. Cyrsiau**

**5.1** –Mynychodd y Cyng.Osian Davies gwrs ar gyfer Cynghorwyr newydd yn ystod y mis diwethaf

**5.2** – Penderfynwyd y byddem yn edrych ar restr o gyrsiau yn y flwyddyn newydd.

.

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

**6.1** –Llongyfarchiadau i GFfI Troedyraur ar eu llwyddiant diweddar yn yr Eisteddfod ac hefyd i Glwb CFfI Pontsian am ennill y darian am y clwb gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau. Angen i'r Clerc anfon llythyr i longyfarch CFfI Troedyraur.
Cerdigion oedd y Sir a ennillodd yr Eisteddfod.

**6.2** – Wedi marwolaeth sydyn Paul Hinge etholwyd Gwyn James yn Bencampwr y Lluoedd Arfog yn ei le.

**6.3** – Mae dyddiad cau enwebiadau Caru Ceredigion ar y 13eg i Dachwedd.
**6.4** – Trafodaeth yr wythnos hon am ddyfodol Dosbarthiadau y chweched yn ysgolion y Sir.

**7. Gohebiaeth**

**7.1** –Derbyniwyd ymateb wrth Lesley am e-byst personol i'r Cynghorwyr. Roedd y gost yn afresymol o ddrud. Opsiwn arall efallai fyddai mynd ati i greu e-byst eraill ein hunain, ond yn ôl Healthcheck Cymru, rhaid iddynt fod o dan ( .gov.cymru)
Cwmni arall i gysylltu efallai fyddai – wearechain.gov.cymru Mae nhw yn canolbwyntio ar gynghorau cymuned. Byddai'n werth holi am bris i gael e-byst personol i'r Cynghorwyr. Soniwyd hefyd y gallwn holi Un Llais Cymru.
**7.2** - Angen llenwi 'Digital Community Self Assesment Tool'. Nodwyd y byddai'n syniad cael grwp i gwrdd i gyd-lenwi'r ffurflen. Bydd y Cyng Sian Williams, Y Cyng.Mark Davies a'r Clerc yn ceisio cwrdd yn ystod y mis.
**7.3** – Antur Cymru – taflen am 'Shaping town centres'. Cynhelir cyfarfodydd lleol i ni yn Aberystwyth ar y 12fed o Dachwedd ac yng Nghastell Newydd Emlyn ar 13eg o Dachwedd.
**7.4** – Logo Natur – lle newydd lleol ar gyfer natur.
**7.5** – Gwybodaeth am Pension Tax credit ar Facebook.
**7.6** – Grant Ariannu a Praesept – Hydref 24ain ( Y Gadeiryddes wedi cymryd rhan.)
**7.7**- Gwiriad Iechyd Digidol
**7.8** – Bocsys grit ar gael o ( broxap.com)
**7.9** – Bwletin costau byw ar Facebook
**7.10** – Mae 1.5 miliwn wedi ei ariannu ar gyfer Hwb Cymunedol Cynnes. Mae hwn yn cynnig paned o dê a lle cynnes i bobl gwrdd a mynd am sgwrs.
**7.11** – Amserlen camau cyllid blynyddol. Mae angen i ni greu un personol – calendr blynyddol.
**7.12** – Agenda Rhagfyr – ( Local Government Services Pay Agreement)
**7.13** - Dolen Teifi. Bu cyfarfod gydag Elin Jones yn bresennol. Mae ychydig o arian wedi dod i law ar gyfer 2 fws mini i ardaloedd gwledig. Maent eoisioes yng Nghribyn, ond mae angen gwirfoddolwyr i yrru'r bws. Rhaid trefnu dyddiau addas ac mae pethau eisioes ar waith i geisio creu rhyw fath o linc gyda 'r bobl yn y gymuned. Nid yw bws mini yr ardal hon wedi cyrrraedd Llandysul eto!!!. Mae Rod o Dolen Teifi wedi rhoi ychydig o wybodaeth yn y cyfarfod am yr hyn maent eisioes yn gynnig – mae bysiau a cheir ar gael ond mae'n wasanaeth sy'n dibynnu'n bennaf ar wirfoddolwyr. Rhaid i'r teithwyr dalu wrth y filltir.

**8. Cynllunio**

**DIM**

**9. Praesept**

**9.1** -Mae angen copi o beth rydym wedi gwario eleni a faint o arian sydd gennym yn y banc. Angen i'r Clerc anfon e-bost gyda'r wybodaeth hyn ar y Cynghorwyr yn ystod yr wythnosau nesaf.

.

**10. Cyllid**

**10.1 –** Cytunodd pawb i dalu'r sieciau ac arwyddywd hwy gan y Cynghorwyr Ceri Jones a Sharon Thomas.

Cyflog y Clerc – £257.98 001782

HMRC – 64.60 001786

Un Llais Cymru - £20.00 001780

The Solutions Factory - £72.00 001781

Ashmole & Co - £94.50 001784

Costau'r Clerc - £63.50 001785

**11. Blwch Halen**

**11.1** - Daeth pawb i'r casgliad fod angen gosod blychau halen cyn y Gaeaf. Nodwyd mae ein cyfrifoldeb ni fydd llenwi'r blychau gyda halen hefyd. Cynigiodd y Cyng.Teifi Evans ein bod yn prynnu 6 blwch halen i osod ar draws ein cymuned. Bydd angen cael 3 pris cyn mynd ati i'w prynu.

**12. Materion ardal**

**12.1** – Brongest – angen cysylltu gyda Clic am y broblem dŵr yn y pentref. Mae cymaint o ddŵr yn rhedeg lawr pob rhiw, mae'r draeniau wedi llenwi ac mae'n achosi i'r tarmac ddirywio.

**12.2** –Ffostrasol – problem lan yn y goedwig lle mae pobl yn taflu sbwriel. (fly-tipping)

**12.3** – Angen cysylltu gyda Clic am y coed/clawdd sydd wedi gor-dyfu ac yn beryglus i gerddwyr. Mae'r clawdd rhwng Bwlchygroes a Ffostrasol, ac hefyd mae'r un broblem rhwng Ffostrasol a Chapel Cynon.

**12.4** – Coedybryn – mae'r gyffordd sy'n dod o gyfeiriad Coedybryn ym Mhenrhiwpâl yn beryglus ac nid oes unrhyw arwydd cyflymder ar y ffordd. Mater o amser cyn bod damwain yn digwydd.

**12.5** – Mae'r arwydd anifeiliaid yn croesi ger Penrhiwpâl wedi cael ei dorri.

**12.6** - Ffostrasol – Mae'r hysbysfwrdd newydd yn ei le. Diolch i Gary Morgan am ei wneud a'i osod yn ei le.

**12.7** – Rhydlewis – Mae'r ffens/bollards oren dal yn yr un fan, er wedi cysylltu gyda Clic droeon.

**12.8** – Crimson Moon – maent yn gosod arwyddion o amgylch y pentref, a rhai mewn mannau anghyfleus.

**12.9** -Clwb Cinio wedi dechrau yn Rhydlewis ac mae'n llewyrchus iawn.

**12.10** – Clwb Cwcan Cynllo – wedi codi swm sylweddol o £1,622.80c tuag at Feicwyr Gwaed Cymru yn ddiweddar.

**12.11** – Angen pawb i edrych ar ôl potiau blodau eich pentrefi.

**13.Coed Nadolig**

**13.1 –** Trafodwyd cael set o oleuadau lliwgar ar gyfer pob coeden Nadolig yn y pentrefi er mwyn denu sylw atynt. Caiff rhain eu archebu o'r un cwmni a ddefnyddiom yn y gorffennol.

Byddwn yn archebu 7 coeden Nadolig eto eleni gan Michael Thomas -Y Cyng. Sharon Thomas yn mynd i drefnu hyn. Bydd y coed yn cael eu gosod ar Dachwedd 30ain.

**13.2** – Ar Ragfyr 1af byddwn yn mynd o amgylch pob pentref yn canu carolau – er mwyn i'r pentrefwyr ddod at ei gilydd ac i nhw fedru ymuno gyda aelodau'r cyngor. Mae'n gyfle i

ddangos wynebau o aelodau'r Cyngor gan mae  dyna pawy sy'n gyfrifol am y coed yn flynyddol.  Bydd y daith ar y 1af yn gorffen yng Nghoedybryn. Bydd posteri ar y wefan ac o gywmpas y pentrefi yn nodi amseroedd y byddwn yn ymgasglu i ganu carolau ym mhob pentref.

**13.3** – Bydd ein ciniio Nadolig eleni yn LaCalabria ar Dachwedd 30ain.  Angen i'r Cynghorwyr ddewis o'r fwylden ymlaen llaw ac anfon eich dewis at y Clerc.

**14.Cyfarfod Nesaf**

**14.1 –** Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Coedybryn ar Ragfyr 3ydd am 7:30yh.

**14.2** – Gan nad oedd dim ymhellach i'w drafod, tynnodd y Gadeiryddes y cyfarfod i ben am 10:07yh

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

-------------------------------------------------------- ------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad